Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Y Berllan Deg
# Circle Way East
# Llanedern
# CF23 9LD

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Y Berllan Deg

Lleolir Ysgol y Berllan Deg yn nwyrain Caerdydd. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae 439 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 48 oed meithrin rhan-amser. Mae'r disgyblion wedi eu rhannu rhwng 16 dosbarth un oed.

Tua 5% o'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn sylweddol is na'r canran cenedlaethol. Mae lleiafrif o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref ac ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae'r ysgol wedi adnabod 16% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ond ychydig iawn sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd yn 2008 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Gorffennaf 2011. Mae'r pennaeth newydd gychwyn ar gyfnod o secondiad am flwyddyn, gyda'r dirprwy bennaeth yn cymryd rôl y pennaeth ar ddechrau Medi 2017.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn Ysgol y Berllan Deg yn cyflawni'n dda, yn enwedig yn eu medrau cyfathrebu. Mae ymddygiad ac agweddau tuag at ddysgu disgyblion yn gadarn ac maent yn barod iawn i gefnogi dysgu ei gilydd. Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a chynhwysol gyda disgyblion yn dangos lefel uchel o barch a goddefgarwch at eraill. Mae gan yr ysgol gynlluniau gwaith pwrpasol sy'n cynnig profiadau buddiol ac yn ennyn diddordeb rhan fwyaf y disgyblion yn effeithiol. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar draws y cwricwlwm. Mae profiadau allgyrsiol cyfoethog yn cefnogi'r dysgu'n llwyddiannus ac yn cyfrannu at falchder disgyblion o'u hiaith a'u Cymreictod. Rhoddir ffocws clir ar ddatblygu addysg bersonol a chymdeithasol ar draws yr ysgol er mwyn cefnogi lles disgyblion yn effeithiol. Mae arweinwyr yn rhannu gweledigaeth bwrpasol ar gyfer yr ysgol. Maent yn defnyddio'r wybodaeth o brosesau hunanarfarnu yn effeithiol er mwyn adnabod blaenoriaethau gwella synhwyrol a sicrhau gwelliant.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar draws y cwricwlwm

A2 Darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion wneud dewisiadau mewn perthynas â'u dysgu a gweithredu'n fwy annibynnol

A3 Darparu cyfleoedd cyson i herio'r disgyblion mwy abl yn effeithiol

A4 Datblygu rolau arweinwyr ar bob lefel er mwyn sicrhau cysondeb yn y ddarpariaeth ar draws yr ysgol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae gan lawer o ddisgyblion sy’n cychwyn yn yr ysgol fedrau sydd o leiaf yn cyfateb i’r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Wrth iddynt symud drwy’r ysgol, maent yn gwneud cynnydd da erbyn Blwyddyn 6. Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd effeithiol tuag at eu targedau o'u mannau cychwyn.

Mae medrau llafar a gwrando rhan fwyaf y disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn gadarn. Maent yn trafod eu gwaith yn hyderus gan ddefnyddio ystod gynyddol o batrymau iaith a geirfa aeddfed. Mae’r rhan fwyaf yn esbonio’r hyn y maent yn ei wneud mewn tasgau yn glir. Mae llawer yn mwynhau darllen ac yn gwneud cynnydd da bob blwyddyn. Maent yn defnyddio ystod effeithiol o strategaethau ffonig yn hyderus i adeiladu geiriau anghyfarwydd pan fo angen. Mae disgyblion mwy abl yn trafod cynnwys eu llyfrau yn aeddfed gan gyfeirio at ddigwyddiadau penodol eu hoff gymeriad. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau ysgrifennu cadarn erbyn diwedd y cyfnod. Maent yn ysgrifennu’n annibynnol, yn deall gwahanol arddulliau ysgrifennu’n dda ac yn ymestyn eu syniadau’n effeithiol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn cyfathrebu’n glir ac yn hyderus yn y ddwy iaith, gan ddefnyddio iaith ffurfiol lle bo’n briodol, er enghraifft wrth gyflwyno erthyglau newyddion. Maent yn gwrando’n astud ar safbwyntiau eraill ac yn trafod testunau amrywiol yn aeddfed. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu darllen yn y Gymraeg a Saesneg. Maent yn llithr ddarllen am wybodaeth yn fedrus i gywain gwybodaeth o wahanol destunau, gan gynnwys y we, er enghraifft wrth greu adroddiad ar ddogni bwyd yn ystod yr Ail Ryfel Fyd. Mae mwyafrif y disgyblion yn adeiladu ar eu medrau ysgrifennu’n llwyddiannus. Erbyn diwedd y cyfnod, mae mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu darnau estynedig yn effeithiol. Maent yn ysgrifennu’n aeddfed gan ddangos ymwybyddiaeth bwrpasol o’r gynulleidfa.

Mae medrau rhifedd rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu’n effeithiol ar draws yr ysgol. Yn y cyfnod sylfaen, mae’r mwyafrif yn gwneud cynnydd da yn eu datblygiad mathemategol. Mae’r rhan fwyaf yn trin arian yn gywir, ac yn datblygu dealltwriaeth dda o fesur, amser a phwyso.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae safonau rhan fwyaf y disgyblion mewn gwersi mathemateg yn gadarn. Mae gan lawer ddealltwriaeth gref o luosi a gwerth lle a gallant ddefnyddio data yn gynyddol gywir a’i gyflwyno mewn gwahanol ffurfiau, mewn graffiau neu dablau. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, nid yw gallu disgyblion i gymhwyso eu medrau rhifedd mewn meysydd eraill o’r cwricwlwm wedi ei ddatblygu’n ddigonol.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) llawer o ddisgyblion yn effeithiol ar draws yr ysgol. Yn y blynyddoedd cynnar, mae llawer o ddisgyblion yn medru rhoi cyfarwyddiadau syml i degan er mwyn iddo symud o amgylch y carped. Ar draws y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu medrau hyderus wrth iddynt greu graffiau syml a chadw eu gwaith ar gof, er enghraifft drwy dynnu lluniau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae’r rhan fwyaf yn creu cyflwyniadau amlgyfrwng yn llwyddiannus er mwyn cyflwyno’u gwaith. Maent yn creu cronfeydd

data drwy ddefnyddio dwy ffynhonnell wahanol ac yn defnyddio fformiwla i greu taenlen i gyfrifo cost gofalu am anifail anwes.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Cymuned ofalgar a chynhwysol yw Ysgol y Berllan Deg. Mae bron pob un disgybl yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi pan fydd angen cymorth arnynt. Mae bron pob disgybl yn rhoi ystyriaeth ofalus i anghenion eraill, er enghraifft mae disgyblion ‘clustiau caredig’ yn helpu yn ystod amser egwyl ar yr iard. Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw’n iach ac mae disgyblion o bob oedran yn deall sut i wneud dewisiadau iach mewn perthynas â diet, gweithgarwch corfforol a lles emosiynol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn manteisio’n gyson ar gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol cyfoethog, er enghraifft mewn clybiau chwaraeon niferus a pherfformio ar lwyfan mewn sioeau ysgol ac eisteddfodau. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu medrau personol a chymdeithasol yn ogystal â datblygu eu hunanhyder a’u ffitrwydd yn llwyddiannus.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cydweithio’n effeithiol yn y dosbarth ac o gwmpas yr ysgol. Maent yn cefnogi dysgu ei gilydd yn ystod gwersi ac yn datblygu i fod yn ddysgwyr hyderus a galluog. Mae’r disgyblion sydd ar y pwyllgorau niferus yn ymgymryd â’u gwaith yn effeithiol. Er enghraifft, trwy waith yr arweinwyr digidol, mae llawer o ddisgyblion yn deall yn glir sut i gadw’n ddiogel ar y we. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu’n fedrus fel dinasyddion gwybodus a moesol. Maent yn trafod trefniadau a bywyd yr ysgol gydag aeddfedrwydd a sensitifrwydd ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o’r byd ehangach, er enghraifft wrth drafod bywydau eraill trwy eu prosiect cyfnewidfa addurniadau coed Nadolig Ewrop. Mae disgyblion hefyd yn cefnogi gweithgareddau’r pwyllgor dyngarol yn rheolaidd i godi arian ar gyfer nifer o elusennau. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu hymwybyddiaeth o anghenion eraill o fewn eu cymuned a’r byd ehangach.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn siarad am eu gwaith yn hyderus ac yn dangos balchder am eu llwyddiannau, er enghraifft wrth iddynt ymfalchïo yn eu tystysgrifau wythnosol a’u cyfrifoldebau fel ‘tywysog a thywysoges’ y dosbarth yn y cyfnod sylfaen. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dyfalbarhau ac yn deall gweithdrefnau pan fyddant yn wynebu anawsterau yn eu dysgu. Wrth gydweithio’n llwyddiannus â chyfoedion, maent yn dangos lefel uchel o barch a goddefgarwch at eraill yn y dosbarth, er enghraifft trwy ganmol ac ymateb yn gwrtais i syniadau eraill.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Maent yn ofalgar o'i gilydd ac yn trin oedolion ac ymwelwyr gyda pharch ac aeddfedrwydd arbennig. Maent yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd mynychu’r ysgol yn rheolaidd ac yn brydlon.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwella**

Mae bron pob aelod o staff yn modelu’r iaith Gymraeg yn dda ac maent yn annog disgyblion i ddefnyddio’r iaith yn ystod gweithgareddau ffurfiol ac anffurfiol. O ganlyniad, mae’r disgyblion yn datblygu’n ddysgwyr dwyieithog cymwys a hyderus. Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd niferus er mwyn datblygu dealltwriaeth y disgyblion o’u treftadaeth a diwylliant Cymru. Mae’r ysgol yn darparu ystod eang o glybiau a gweithgareddau allgyrsiol sy’n cyfoethogi dysgu’r disgyblion yn llwyddiannus.

Mae perthynas waith dda yn bodoli rhwng yr oedolion a'r disgyblion ar draws yr ysgol ac mae'r holl staff yn rheoli ymddygiad disgyblion yn dda. Mae'r athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o gynorthwywyr dysgu er mwyn cefnogi unigolion a grwpiau o ddisgyblion. Mae'r cynorthwywyr yn cefnogi'r dysgu'n fedrus ac yn ymyrryd yn synhwyrol er mwyn herio a chefnogi disgyblion. Er hyn, nid yw staff bob tro'n defnyddio cwestiynau pwrpasol er mwyn herio ac ymestyn dealltwriaeth disgyblion yn effeithiol.

Mae gan yr ysgol gynlluniau gwaith pwrpasol sy'n cynnig profiadau buddiol ac yn ennyn diddordeb rhan fwyaf y disgyblion yn effeithiol. Yn gyffredinol, mae llawer o athrawon yn defnyddio arddulliau addysgu priodol ac yn cyflwyno amcanion dysgu clir i ddisgyblion. Caiff y rhain eu rhannu'n rheolaidd i sicrhau pwrpas i'r dysgu. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob tro'n herio disgyblion yn ddigon effeithiol nac yn gosod disgwyliadau uchel o ran eu cyflawniad. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn gweithio hyd eithaf eu gallu, yn enwedig y rhai mwyaf abl.

Mae athrawon y cyfnod sylfaen yn darparu gweithgareddau ffocws a pharhaus priodol sy'n cynnwys cyfleoedd i ddisgyblion ymchwilio, chwarae rôl, coginio yn y gegin fwd ac ymarfer eu medrau corfforol. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, mae llawer o'r gweithgareddau'n dueddol o gael eu harwain gan oedolion ac mae hyn yn cyfyngu'r cyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau ynglŷn â'u dysgu. Mewn ychydig o ddosbarthiadau, mae'r gorddefnydd o daflenni gwaith yn cyfyngu ar gyfleoedd disgyblion i ysgrifennu darnau estynedig. Yn ogystal, prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ar draws yr ysgol fanteisio ar yr amgylchedd dysgu allanol eang er mwyn cyfoethogi eu dysgu. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn cael cyfleoedd buddiol i ddatblygu medrau dysgu annibynol na'u medrau meddwl yn ddigon cyson.

Mae'r ysgol yn cynllunio'n briodol ar gyfer datblygu llythrennedd a rhifedd disgyblion o fewn sesiynau iaith a mathemateg. Mae cyfleoedd pwrpasol i ddatblygu medrau iaith mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw'r cyfleoedd i ddatblygu medrau rhifedd a TGCh disgyblion ar draws y cwricwlwm wedi datblygu'n ddigon effeithiol er mwyn i ddisgyblion gymhwyso'u medrau'n rheolaidd.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn datblygu'n addas yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau ar draws yr ysgol. Mae athrawon yn rhoi adborth i ddisgyblion sydd, yn gyffredinol, yn dilyn y meini prawf llwyddiant ac yn cynnig sylwadau adeiladol i'r disgyblion ar sut i wella'u gwaith. Mae disgyblion yn dechrau asesu eu gwaith eu hunain a'u cyfoedion ac yn ymateb i sylwadau'r athrawon, ond mae'n rhy gynnar i fesur effaith hyn ar ddeilliannau disgyblion.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae gan yr ysgol systemau cadarn ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion o'u mannau cychwyn. Mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth yn briodol er mwyn adnabod y disgyblion sydd angen cefnogaeth ychwanegol o ran llythrennedd, rhifedd a lles. O ganlyniad, maent yn darparu rhaglenni ymyrraeth buddiol er mwyn sicrhau bod y disgyblion hyn yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu. Mae cynlluniau dysgu unigol ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion ychwanegol yn bwrpasol. Defnyddir cynorthwyr dysgu yn effeithiol ar draws yr ysgol i gefnogi disgyblion unigol yn eu dysgu ac i weithredu ystod o raglenni ymyrraeth. Mae hyn yn cynnwys darparu

cefnogaeth ac arweiniad buddiol er mwyn datblygu anghenion emosiynol a chymdeithasol y disgyblion yn effeithiol. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at yr ethos gofalgar a theuluol sy'n bodoli yn yr ysgol.

Mae gan yr ysgol berthynas waith gadarn gydag ystod o asiantaethau eraill er mwyn cefnogi disgyblion ac i estyn cymorth ac arweiniad i staff. Enghraifft dda yw'r berthynas fuddiol gyda chanolfan lles leol er mwyn darparu cefnogaeth i ddisgyblion bregus. Mae'r ysgol hefyd yn cydweithio gyda rhieni er mwyn iddynt gefnogi dysgu eu plant yn briodol, er enghraifft trwy gynnig syniadau i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd ar wefan yr ysgol a thrwy'r defnydd o lyfrau cyswllt cartref.

Mae ffocws clir ar ddatblygu addysg bersonol a chymdeithasol ar draws yr ysgol. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at sicrhau bod disgyblion yn dysgu am bwysigrwydd bwyta'n iach a chadw'n heini a sut i gadw'n ddiogel ar y we. Mae'r diwylliant cyfoethog o barch, cydraddoldeb a thegwch sy'n bodoli yn hybu nodau'r ysgol yn effeithiol. Caiff hyn ei atgyfnerthu'n llwyddiannus drwy brofiadau pwrpasol, gan gynnwys wythnosau rhyngwladol a'u gweithgareddau elusennol. Mae hyn yn meithrin parch y disgyblion tuag at ddiwylliannau a chredoau eraill ac yn eu hannog i dyfu'n ddinasyddion effeithiol.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau creadigol a chorfforol. Caiff rhan fwyaf y disgyblion gyfleoedd buddiol i ymwneud â'r celfyddydau creadigol drwy berfformio a chystadlu yn yr ysgol ac mewn eisteddfodau a sioeau, ac mae hyn yn cyfrannu'n dda tuag at ddatblygiad hunanhyder llawer o ddisgyblion. Mae cyfleoedd diweddar i ddisgyblion hŷn yr ysgol fod yn rhan o gynllun 'Ysgolion Arweiniol Creadigol' yn atgyfnerthu hyn yn llwyddiannus trwy gyfuno profiadau creadigol a mynegiannol â gweithgareddau llythrennedd a TGCh gydag awdur a chynhyrchydd rhyngweithiol.

Mae'r ysgol ar dir eang, ac mae'n cael ei gadw'n lân a thaclus. Mae trefniadau trwyadl ar gyfer rheoli'r safle. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae gan y pennaeth dros dro weledigaeth gadarn sy'n seiliedig ar safonau da a lles disgyblion. Mae arweinwyr yn cyfleu'r weledigaeth yn glir er mwyn creu ethos gofalgar a chynhwysol llwyddiannus. Mae aelodau'r uwch dîm rheoli dros dro yn ei chefnogi'n bwrpasol gan sicrhau bod holl aelodau'r staff yn cydweithio'n effeithiol fel tîm i wireddu blaenoriaethau'r ysgol. Mae gan bob aelod staff gyfrifoldeb am agwedd benodol ar waith yr ysgol, sy'n cyfrannu'n dda at gynnal safonau cadarn o ran lles a chyflawniad disgyblion. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi sefydlu timau o athrawon er mwyn arwain ar elfennau penodol o waith yr ysgol sy'n seiliedig ar egwyddorion sydd o fewn datblygiadau'r cwricwlwm newydd . Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i fesur eu heffaith ar y ddarpariaeth a deilliannau disgyblion.

Yn gyffredinol, mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o gryfderau a meysydd sydd angen eu gwella yn yr ysgol. Maent yn defnyddio'r wybodaeth o brosesau hunanarfarnu eang, fel craffu ar lyfrau, arsylwi gwersi a dadansoddi data, er mwyn adnabod blaenoriaethau gwella. Mae'r athrawon yn gweithio'n briodol o fewn 'sgwariau arsylwi' sy'n rhoi cyfle i athrawon arsylwi ei gilydd yn addysgu mewn grwpiau o bedwar. Mae hyn yn cefnogi athrawon ac arweinwyr i werthuso

strategaethau addysgu ac i adnabod blaenoriaethau ar gyfer gwelliant.  O ganlyniad, mae arweinwyr yn cynllunio hyfforddiant penodol mwyn cryfhau addysgu.  Enghraifft dda yw'r hyfforddiant ysgol gyfan ar gyfer gwella medrau TGCh disgyblion.  Fodd bynnag, nid yw'r broses hon bob tro'n adnabod elfennau pwysig o'r ddarpariaeth sydd angen eu gwella, er enghraifft cynllunio cyfleoedd pwrpasol ar gyfer datblygu medrau dysgu annibynnol disgyblion.

Mae blaenoriaethau'r cynllun gwella wedi eu seilio'n uniongyrchol ar ddeilliannau'r weithdrefn hunanarfarnu ac yn canolbwyntio'n gadarn ar gynnal a chodi safonau.  Mae arweinwyr yn monitro cynnydd yn ofalus ac yn cyflwyno adolygiad buddiol mewn perthynas â blaenoriaethau'r cynllun blaenorol yn rheolaidd.

Mae gan aelodau'r corff llywodraethol wybodaeth drylwyr am berfformiad yr ysgol sy'n eu galluogi i gefnogi ac i ddwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn llwyddiannus.  Mae is-bwyllgorau yn cyfrannu'n werthfawr at gyfeiriad strategol yr ysgol trwy ymgymryd â gweithgareddau rheolaidd, er enghraifft wrth gydweithio ag arweinwyr a staff yr ysgol i arsylwi ar wersi, craffu ar lyfrau a siarad â disgyblion.  Mae hyn yn sicrhau bod ganddynt drosolwg clir o holl waith yr ysgol.

Mae arweinwyr yn sicrhau defnydd pwrpasol o gyllideb yr ysgol er mwyn gwella'r ddarpariaeth a safonau, ac mae'r gwariant yn cysylltu â blaenoriaethau cynllun gwella'r ysgol yn synhwyrol.  Mae'r ysgol wedi ei staffio'n briodol ac mae'r staff cynorthwyol yn rhan effeithiol o'r tîm, gan gyfrannu'n addas at wella safonau, lles a medrau cymdeithasol y disgyblion.  Maent yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn effeithiol, er enghraifft i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a lles disgyblion.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 27/11/2017